DAWNS, DRAMA A PHERFFORMIO

Fel rheol, bydd gan unigolyn sydd wedi graddio mewn Dawns, Drama a pherfformio y gallu i:

- Ddefnyddio sgiliau perfformio a chynhyrchu i gyfathrebu â chynulleidfa.
- Defnyddio prosesau grwp wrth greu gwaith gwreiddiol.
- Cyfathrebu'n ysgrifenedig, ar lafar a thrwy berfformio.
- Ymarfer sgiliau beirniadol, dadansoddol a chorfforol a gwneud gwaith ymchwil.
- Defnyddio sgiliau creadigol a dychmygus trwy wireddu prosiectau ymchwil ymarferol.
- Meddwl yn fyfyriol ac annibynnol a chanolbwyntio am gyfnodau estynedig.
- Datblygu syniadau a llunio dadleuon a'u cyflwyno mewn ffyrdd priodol.
- Trin materion creadigol, personol a rhyngbersonol a thrafod ac anelu at amcanion gydag eraill.
- Rheoli llwythi gwaith personol a bodloni terfynau amser dan bwysau gyda hyblygrwydd, dychymyg, hunan-ysgogiad a threfn.
- Cynhyrchu gwaith ysgrifenedig gyda safonau ysgolheigaidd priodol.
- Gallu defnyddio sgiliau adalw gwybodaeth sy'n cynnwys casglu, dadansoddi a threfnu deunydd.
- Defnyddio sgiliau TG megis prosesu geiriau, post electronig a chael gafael ar ddata electronig.

Trosolwg o Ddawns, Drama a Pherfformio

Mae Dawns, Drama a Pherfformio yn cynnwys astudio dawns, drama, theatr, perfformio a'r gwaith o'u cynhyrchu, gyda phob un â'i draddodiadau perfformio deallusol ac ymarferol, gwybodaeth, sgiliau a chysyniadau eu hunain. Gellir cyfuno'r gweithgareddau hyn gyda fideo, ffilm, teledu, radio a pherfformiad amlddisgyblaethol a hefyd gyda gwaith sy'n integreiddio amrywiaeth o arddulliau perfformio a chreu, gan gynnwys cyfryngau eraill a thechnoleg newydd a pherfformiad rhyngddisgyblaethol a rhyng-gyfryngol. Mae astudiaeth hefyd yn cael ei seilio ar gysyniadau a dulliau wedi'u cymryd o ddisgyblaethau megis anthropoleg, celf a dylunio, astudiaethau diwylliannol, ethnograffeg, hanes, llenyddiaeth, astudiaethau'r cyfryngau, cerddoriaeth, athroniaeth, gwleidyddiaeth, polisi cymdeithasol a chymdeithaseg.

Gall natur benderfynol, profiad eang, sgiliau profedig a chysylltiadau da agor drysau gyrfaoedd i raddedigion dawns a drama sy'n cynnwys: actio; gweinyddu a rheoli celfyddydau; coreograffi; celfyddydau cymunedol; perfformio dawns; therapi dawns a drama; darlithio, addysgu a hyfforddi; y cyfryngau, cynhyrchu ffilm a theledu; gwaith technegol, cynhyrchu a rheoli llwyfan. Mae cyflogwyr yn cynnwys sefydliadau celfyddydol a diwylliannol, llywodraeth leol, addysg, cwmnïau ffilm a theledu, hamdden, diwydiant a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Gall sgiliau trosglwyddadwy graddedigion, yn enwedig mewn perfformio, cyflwyno a chyfathrebu rhyngbersonol, fod yn werthfawr mewn gweithgareddau eraill ac mae nifer o raddedigion wedi cael gyrfa mewn meysydd megis manwerthu, cyllid, gwaith cymdeithasol, teithio a thwristiaeth, marchnata a'r sector gwirfoddol.

Ffynhonnell: CIHE 2006